Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Astudiaeth Achos: Optimeiddio Stoc Deunydd Pwythau yn Ysbyty'r Tywysog Philip

Trosolwg

Yn dilyn gweithredu SupplyX a chynnal gwiriadau stoc a rhoi adroddiadau defnydd Sganio er Diogelwch ar waith yn Ysbyty'r Tywysog Philip, nododd staff clinigol yr Uned Gofal Dwys fod gormod o ddeunydd pwythau yn cael eu cadw yn y stoc. Datgelodd adolygiad cydweithredol gyda llawfeddygon gyfleoedd i symleiddio rhestr eiddo deunydd pwythau. Camau a Gymerwyd

- Rhesymoli Pwythau: Roedd sawl math o bwythau gyda diamedrau tebyg ond hydau amrywiol mewn stoc. Er mwyn lleihau cost a gwastraff, torrwyd pwythau hirach i'r maint cywir yn hytrach nag archebu hydau lluosog.
- Cydgrynhoi Ystod: Cytunodd llawfeddygon i gyfyngu'r opsiynau pwythau i ystod graidd (tenau, canolig, trwchus), gan leihau dyblygu a safoni'r defnydd.
- Optimeiddio Nodwyddau: Arweiniodd asesiad o stoc nodwyddau at ddileu mathau a ddefnyddir yn anaml, gan ganolbwyntio ar flaenau cyffredin neu gyfnewidiol.
- Lleihau Clymau: Tynnwyd clymau llawfeddygol defnydd isel o'r stoc. Dewisodd llawfeddygon dorri pwythau i'w clymu yn lle defnyddio cynhyrchion clymu ar wahân.

Canlyniadau

- 6 ystod o eitemau wedi'u tynnu
- 1,033 yn llai o unedau wedi'u harchebu fesul cylch
- Stoc gwerth £2,465 wedi'i ryddhau yn ôl i'r gwasanaeth



Casgliad

Fe wnaeth y fenter hon, a ysgogwyd gan ymgysylltiad clinigol a data gan SupplyX, symleiddio rhestr eiddo, lleihau gwastraff, a chreu arbedion cost sylweddol heb beryglu gofal clinigol. Os gellir cyflawni llwyddiant o'r fath yn y maes hwn, mae'n awgrymu potensial cryf ar gyfer manteision ehangach os caiff ei ehangu ar draws meysydd eraill.



Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch ag arweinwyr
Sganio er Diogelwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn rhian.powell2@wales.nhs.uk a gary.peters@wales.nhs.uk